
# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Rhan o Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas

CARDIFF
CAERDYDD

Trawsnewid
Trafnidiaeth
Caerdydd



# Pecyn Ymgysylltu

Ffynhonnell: Google Earth

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Cefndir

Mae'r cyngor yn creu gofod cyhoeddus newydd fel rhan o **Gam 1a Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2**. Bydd y cynllun ehangach hwn yn gyswllt rhwng canol y ddinas ac i'r dwyrain o'r ddinas, i ffin y sir â Chasnewydd.

Fel rhan o'r cynllun coridor uchod, mae'r cyngor yn bwriadu:


- Cael gwared ar danffordd Boulevard De Nantes (isffordd);
- Ychwanegu croesfan lefel stryd newydd ar Boulevard De Nantes;
- Cau rhan uchaf Ffordd y Brenin i gerbydau modur; a
- Gwella'r ardal rhwng Boulevard De Nantes a Heol y Brodyr Llwydion.

Bydd y newidiadau hyn yn gwella **mynediad i gerddwyr a beiciau** rhwng Canol y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig ac yn creu **gofod cyhoeddus newydd**.

Mae'r **pecyn ymgysylltu** hwn yn canolbwyntio ar ardal **Ffordd y Brenin** (uchaf) ac yn cynnwys gwybodaeth am y **newidiadau**, lluniadau symlach a delweddau 3D a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur. **Mae fideo 3D** o'r cynigion hefyd ar gael trwy glicio ar yr eicon fideo ar waelod y dudalen.

Mae'r cynllun ar y dde yn dangos ffin fras y gwelliannau, fodd bynnag, mae newidiadau eraill wedi'u cynllunio fel rhan o'r cynllun ehangach ar hyd y coridor. Mae cael gwared ar yr isffordd yn rhan o **Gam 1a Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2**, gan gynnwys yr ardaloedd sydd yn uniongyrchol i'r gogledd a'r de lle mae'r grisiau a'r rampiau wedi'u lleoli.

**Clicwch I wylio'r fideo**




Mae gwybodaeth am **Sut i Ymateb** ar gael ar ddiwedd y pecyn hwn, ynghyd â **Chwestiynau Cyffredin**. Bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i fireinio'r cynigion.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Gweledigaeth

Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i wella ardal **Ffordd y Brenin**. Bydd yr **isffordd** ar Boulevard De Nantes yn cael ei **gwaredu**, a bydd y gyffordd i Ffordd y Brenin yn **cael ei chau i draffig** fel rhan o gynllun Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni greu **gofod cyhoeddus newydd** yng nghanol ardal canol y ddinas. Ein nod yw troi Ffordd y Brenin o fod yn ffordd draffig brysur, i fod yn fan diogel, gwyrdd y gall pobl ei ddefnyddio yn hawdd. Bydd yn cysylltu **Canol y Ddinas** a'r **Ganolfan Ddinesig** gyda llwybrau clir ar gyfer cerdded, beicio ac olwynio. Mae rhai o nodau ein prosiect fel a ganlyn:

### Trawsnewid y Coridor

- Defnyddio'r cyfle a geir drwy'r newidiadau ehangach i greu gofod cyhoeddus bywiog, cynhwysol yng nghalon canol y ddinas.

### Ailgysylltu'r Ddinas

- Gwella cysylltiadau rhwng Canol y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig.
- Gwella hygyrchedd gyda llwybrau teithio llesol hawdd a chlir ar gyfer cerdded a beicio i bob defnyddiwr.

### Gofod Gwyrdd, Cynaliadwy a Chroesawgar

- Cyflwyno gofod gwyrdd croesawgar gyda choed, planhigion a bioamrywiaeth.
- Integreiddio draenio cynaliadwy clyfar newydd i helpu'r amgylchedd.

### Dathlu Treftadaeth

- Gwella'r golygfeydd i Neuadd y Ddinas a Gwesty'r Hilton.
- Symud cerflun 2il Ardalydd Bute (o Sgwâr Callaghan) a chreu cyswllt â Gerddi'r Brodordy.

### Gofod Mwy Diogel a Hyblyg

- Darparu goleuadau a llinellau gweld gwell ar gyfer diogelwch a gwneud y gofod yn ymarferol ar gyfer digwyddiadau, marchnadoedd a chymdeithasu.




Ffordd y Brenin (ar hyn o bryd) yn edrych i'r gogledd




Ffordd y Brenin (ar hyn o bryd) yn edrych i'r de



Ffordd y Brenin (arfaethedig) yn edrych i'r gogledd



*Trefniant tirlunio dangosol. Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig - nid yw'r delweddau i raddfa*

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Cyd-destun safle / amodau presennol

**Ble mae Ffordd y Brenin?** Mae Ffordd y Brenin wrth galon canol Caerdydd. Mae'n cysylltu **Canol y Ddinas** gyda'r **Ganolfan Ddinesig**. Mae'r tirnodau cyfagos yn cynnwys **Gerddi'r Brodordy** i'r gorllewin a Heol y Brodyr Llwydion a Gwesty'r Hilton i'r de. Mae **Camlas Gyflenwi'r Dociau** a Boulevard de Nantes i'r gogledd. Mae'r Ganolfan Ddinesig a Pharc Cathays ymhellach i'r gogledd gyda **Chastell Caerdydd** i'r de-orllewin o Ffordd y Brenin.

**Sut mae Ffordd y Brenin heddiw?** Ar hyn o bryd, mae Ffordd y Brenin yn llwybr prysur ar gyfer traffig, cerddwyr a beicwyr. Mae'n cysylltu ardaloedd siopa fel Heol y Frenhines â safleoedd diwylliannol fel Castell Caerdydd, yr Amgueddfa a Neuadd y Ddinas. Mae yna **isffordd** o dan Boulevard de Nantes, ond nid yw ei rampiau yn bodloni safonau **hygyrchedd** modern, ac mae rhai pobl yn teimlo'n anniogel wrth ei defnyddio. Mae'r ardal yn teimlo'n flinedig a **datgysylltiedig**, gyda thraffig yn dominyddu'r gofod a gwahaniaethau lefel yn y gofod agored presennol sy'n anodd eu llywio.



Lluniau o Ffordd y Brenin a'r isffordd (ar hyn o bryd)

**Felly beth sy'n newid yn Ffordd y Brenin?** Ar hyn o bryd, mae Ffordd y Brenin wedi'i dominyddu gan **draffig**, ac mae Gerddi'r Brodordy yn aml yn cael eu hanwybyddu. Mae Boulevard de Nantes yn gweithredu **fel rhwystr**, gan ei gwneud hi'n anodd symud rhwng Canol y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig.

Rydyn ni'n bwriadu **trawsnewid** Ffordd y Brenin yn ofod gwyrdd, croesawgar sy'n hawdd ei gyrraedd. Bydd y dyluniad newydd yn cynnwys:

- Llwybrau cerdded a beicio mwy diogel ac uniongyrchol;
- Coed a thirlunio gyda llefydd i eistedd ac ymlacio; a
- Chroesfan lefel stryd i ddisodli'r hen isffordd, gan ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i ddefnyddwyr.

Bydd y newidiadau hyn yn helpu i **gysylltu** Canol y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig a chreu gofod **i bobl**, nid traffig.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Cyflwyno'r dyluniad

**Y dyluniad -** Mae'r dyluniad wedi'i ddatblygu gan **TACP** a **Burroughs** ar ran y cyngor. Y nod yw creu gofod cyhoeddus newydd sy'n lle **diogel**, **gwyrdd**, a **deniadol** i gerdded, beicio, a threulio amser. Bydd yn hawdd symud drwyddo, bydd yn groesawgar, a bydd yn diwallu gwahanol anghenion **i bawb**.

**Sut bydd yn cael ei osod? -** Mae'r dyluniad yn darparu **rhodfa ganolog** gyda llwybr cerdded a fydd yn cysylltu Canol y Ddinas â'r Ganolfan Ddinesig. Mae yna hefyd lwybrau ochr a fydd yn cysylltu â lleoedd cyfagos fel Gerddi'r Brodordy. Mae'r gwahanol **barthau** yn darparu ardaloedd ar gyfer digwyddiadau a mannau gwyrdd tawelach ar gyfer ymlacio, gan wneud iddo deimlo'n ddiogel a haws i'w ddefnyddio. Bydd llwybrau llydan, goleuo da, ac arwyddion clir yn helpu pawb i **deimlo'n gyfforddus**.

**Cyfuno adeiladau a natur -** Bydd y dyluniad yn cydweddu â'r adeiladau cyfagos ac yn ychwanegu llawer o wyrddni. Bydd coed, ardaloedd plannu, a gerddi glaw yn gwneud i'r gofod edrych yn ddeniadol, yn gwella ansawdd aer, ac yn **cefnogi bywyd gwyllt**.

### Symud o Gwmpas

- **Cerdded yn Gyntaf:** Bydd llwybrau llydan, heb risiau a chroesfannau diogel yn gwneud cerdded yn hawdd.
- **Addas i Feiciau:** Bydd lle parcio beiciau a chysylltiadau â llwybrau'r ddinas yn cael eu cynnwys.
- **Mynediad cyfyngedig i gerbydau:** Dim ond at ddibenion cynnal a chadw neu ddigwyddiadau arbennig y caniateir cerbydau, felly bydd y gofod yn ddiogel ac yn canolbwyntio ar bobl.

Bydd y gofod cyhoeddus newydd hwn yn cysylltu rhannau allweddol o'r ardal, yn dathlu treftadaeth Caerdydd, ac yn creu ardal wyrdd, fywiog i bawb ei mwynhau.
I'r dde mae rhai delweddau 3D o'r **rhodfa goediog**. Dangosir golwg cynllun a delweddau pellach ar y tudalennau nesaf.












*Trefniant tirlunio dangosol. Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig - nid yw'r delweddau i raddfa*

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Trosolwg o'r dyluniad cysyniad

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

### Y dyluniad yn gyffredinol:


- Bydd rhodfa wedi'i leinio â choed yn rhedeg ar hyd Ffordd y Brenin, gan greu golygfa rhwng Neuadd y Ddinas a Gwesty'r Hilton.
- Bydd y rampiau a'r grisiau ar ddwy ochr yr hen isffordd yn cael eu gwaredu a'u disodli gydag arwynebau gwastad.
- Bydd yr ardal hon o Ffordd y Brenin yn ddi-draffig.



Edrych i'r gogledd (arfaethedig)

### Llwybrau Newydd i Gerddwyr:

- Bydd cyswllt newydd yn cael ei greu Erddi'r Brodordy a fydd yn cysylltu arhosfan bws Heol y Gogledd â Ffordd y Brenin.
- Bydd troedffordd newydd yn cysylltu arhosfan bws Heol y Gogledd â'r groesfan lefel stryd newydd ar Boulevard De Nantes.





### Boulevard De Nantes

- Bydd Beicffordd 2 ar ochr ogleddol Boulevard De Nantes.
- Bydd yr isffordd yn cael ei disodli gyda chroesfan i gerddwyr a beiciau.



Edrych i'r gogledd (arfaethedig)



Edrych i'r dwyrain (arfaethedig)



Edrych i'r gorllewin (arfaethedig)



*Trefniant tirlunio dangosol. Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig - nid yw'r delweddau i raddfa*

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd


# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Dyluniad cysyniad (ardal ogleddol)

CARDIFF CAERDYDD

### I'r gogledd o Boulevard de Nantes:

- Fel rhan o'r gwaith ar yr isffordd, bydd coed a meinciau ychwanegol yn cael eu darparu, ynghyd ag ardaloedd wedi'u tirlunio neu ardaloedd glaswellt.
- Bydd y ramp a'r grisiau i'r isffordd yn cael eu gwaredu a bydd yr ardaloedd yn wastad.
- Bydd bolardiau arbennig neu gelfi stryd yn cael eu defnyddio i amddiffyn yr ardal rhag cerbydau anawdurdodedig.







Ardal wastad, planhigion a meinciau

### Ffordd y Brenin (ardal ogleddol):

- Bydd cerflun Nereid (sydd o flaen Un Ffordd y Brenin ar hyn o bryd) yn cael ei symud i'r ardal newydd i'r gogledd o gamlas gyflenwi'r dociau.
- Bydd llawer o gyfleoedd hwylus i gerddwyr ddefnyddio'r ardal ac er nad y bwriad yw bod yn brif lwybr beicio, caniateir i feicwyr gael mynediad i'r cyfleuster parcio beiciau yn yr ardal.
- Bydd coed newydd yn cael eu plannu gyda chynnydd cyffredinol yn y coed a mannau gwyrdd.



Parcio beicio, cysylltiadau newydd a phlanhigion



Cerflun Nereid wedi'i adleoli




*Trefniant tirlunio dangosol. Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig - nid yw'r delweddau i raddfa*

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Dyluniad cysyniad (ardal ddeheuol)

**Ffordd y Brenin (ardal ddeheuol):**


- Bydd llawer o gysylltiadau i gerddwyr eu harchwilio a theithio drwy'r ardal yn hawdd, gan gynnwys cyswllt newydd trwy Erddi'r Brodordy.
- Bydd cerflun 2il Ardalydd Bute yn cael ei symud i ardal y rhodfa ganolog
- Bydd yr ardal yn cysylltu â Gerddi'r Brodordy a'r man gwyrdd o flaen camlas gyflenwi'r dociau.
- Darperir lle ar gyfer digwyddiadau a stondinau marchnad dros dro neu ofod caffi dros dro.
- *Bydd cynnydd mewn coed a mannau gwyrdd.*





Golygfa tuag at Erddi'r Brodordy


Llinell welediad rhwng ardal Neuadd y Ddinas / Gwesty'r Hilton


Cerflun 2il Ardalydd Bute



*Trefniant tirlunio dangosol. Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig - nid yw'r delweddau i raddfa*

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Cynllunio a Chydymffurfio â Pholisi

**Cydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol a Lleol -** Mae ein cynlluniau yn dilyn polisïau cenedlaethol a lleol i greu mannau diogel, gwyrdd a hygyrch. Maent yn cefnogi cerdded, beicio, bioamrywiaeth a gwytnwch hinsawdd, yn unol â strategaeth Cryfach, Tecach, Gwyrddach Caerdydd - gan greu amgylchedd bywiog, teg sy'n gwella cysylltedd a lles cymunedol.

**Teithio Llesol a Dylunio Strydoedd -** Mae'r cynllun yn rhan o brosiect coridor trafnidiaeth gynaliadwy, ac felly, bydd yn dilyn canllawiau dylunio fel Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r egwyddorion Llawlyfr Strydoedd i flaenoriaethu cerdded a beicio.

**Treftadaeth a Chadwraeth –** Bydd y dyluniadau'n sensitif i'r ardal gadwraeth a byddant yn gwella ac yn diogelu nodweddion hanesyddol. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn cael ei gynnal ynghyd â chysylltiad parhaus â'n rhanddeiliaid a'n harbenigwyr allweddol.

**Nodau Amgylcheddol a Chynaliadwyedd -** Mae'r cynllun yn cynnwys draenio cynaliadwy, mwy o goed, a bioamrywiaeth i helpu'r amgylchedd a chefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid –** Fel rhan o ddatblygiad parhaus a chynnar cynllun Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin, mae'r cyngor wedi cysylltu ag ystod eang o randdeiliaid drwy weithdai a chyfarfodydd, megis:

- Timau Cyngor Caerdydd a Thimau Technegol
- Busnesau Lleol, Caerdydd AM BYTH a Gweithredwyr Bysus
- Grwpiau Hygyrchedd a Safe by Design
- Sefydliadau Diwylliannol ac Addysgol
- Aelodau Ward
- Gwasanaethau Gwrthderfysgaeth a Brys
- Digwyddiadau Pobl Ifanc a Phlant
- Cyrff Arbenigol (CADW, Sight Life, RNIB)

**Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

- **Cynhwysiant a Hygyrchedd –** Lleoedd i bawb o bob oedran a gallu, llwybrau clir, a chroesfannau diogel.
- **Diogelwch –** Goleuadau da, llinellau gweledig agored, a mesurau amddiffynnol.
- **Gwyrddio a Chynaliadwyedd –** Mwy o goed, bioamrywiaeth, a draenio cynaliadwy.
- **Treftadaeth a Hunaniaeth –** Parchu safbwyntiau hanesyddol ac integreiddio nodweddion diwylliannol.
- **Hyblygrwydd a Defnydd Cymunedol –** Gofodau ar gyfer digwyddiadau, marchnadoedd, a rhyngweithio cymdeithasol.
- **Yn Dda i Blant / Chwarae –** Ardaloedd ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc.
- **Cynnal a Chadw ac Ansawdd -** Dyluniad gwydn, hawdd i'w gynnal.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

Pecyn Ymgysylltu - Chwestiynau Cyffredin

CC

Rydym wedi datblygu cyfres o gwestiynau ac atebion a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi gobeithio. Mae cyfle i roi adborth ar ddiwedd y pecyn hwn ar dudalen 14.

## Ynglŷn â'r prosiect:

### Beth ydych chi'n ymgysylltu yn ei gylch yn union?

- Rydym yn ymgysylltu ar fan agored cyhoeddus newydd yn Ffordd y Brenin yn ardal Canol y Ddinas yng Nghaerdydd.
- Mae'n rhan o Gam 1a Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2. Roedd yr ymgysylltiad Cam 1 hefyd yn cynnwys cael gwared ar isffordd Boulevard de Nantes a gwneud rhan uchaf Ffordd y Brenin yn ddi-draffig.
- Soniwyd am y cynnig hwn yn yr ymgysylltiad a gynhaliwyd ar gyfer Cam 1. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyfer Cam 1a a'r coridor ehangach drwy ddewis y dolenni canlynol: **Cam 1** a'r **Llwybr Ehangach**.

### Pam mae'r prosiect yn digwydd?

- Datblygwyd y prosiect hwn o ganlyniad i'r cynigion bysus a beicffordd ar gyfer Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2.
- Er mwyn adeiladu'r feicffordd barhaol ar Boulevard De Nantes, bydd yr isffordd yn cael ei gwaredu a bydd y gyffordd sy'n arwain i Ffordd y Brenin yn cael ei chau i draffig.
- Mae hyn wedi creu'r cyfle i wella'r ardal, gan y bydd llawer o le yn cael ei greu pan fydd yr isffordd yn cael ei gwaredu a bydd angen gwneud yr ardal yn wastad a chael gwared ar yr hen ffordd.

### Mae'r pecyn yn sôn y bydd newidiadau y tu allan i'r ffin goch ar dudalen 2. Pam felly?

- Mae'r ffin goch yn cynrychioli prif ardal newidiadau Ffordd y Brenin.
- Y tu allan i'r ffin goch bydd newidiadau i Boulevard De Nantes fel rhan o'r cynllun coridor ehangach y soniwyd amdano uchod.
- Bydd newidiadau hefyd i'r gogledd ac i'r de o'r isffordd lle bydd y rampiau a'r grisiau'n cael eu gwaredu a'r ardaloedd yn cael eu hadnewyddu.

## Cynllunio, hanesyddol ac amgylcheddol:

### Dydw i ddim wedi gweld y prosiect yn cael ei hysbysebu o'r blaen. Oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect?

- Nid oes angen caniatâd cynllunio ar brif rannau'r cynllun; gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith gwella'n cael ei wneud o fewn y briffordd fabwysiedig (fel hon), nid oes angen caniatâd cynllunio.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Chwestiynau Cyffredin (Parhad)

**Parhad...**

- Cafodd y prosiect ei gynnwys yn 'Astudiaeth Ddichonoldeb Aer Glân: Cynllun Terfynol ac Achos Busnes Llawn Mehefin 2019' Cyngor Caerdydd.
- Mae gan y cyngor (Awdurdod Lleol) 'hawliau datblygu a ganiateir' (o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995), sy'n ddyfarniad tybiedig o ganiatâd cynllunio gan Orchymyn Llywodraeth Cymru; i ymgymryd ag ystod o waith ar dir sy'n perthyn iddo neu a gynhelir ganddo at ddibenion unrhyw swyddogaeth a arferir ganddo neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw wasanaeth cyhoeddus a weinyddir ganddo.
- Fel rhan o ddull arfer gorau, cynhelir ymgysylltiad ag adrannau mewnol o fewn y cyngor, ein rhanddeiliaid, Cynghorwyr Ward lleol a'r cyhoedd. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'n proses ymgysylltu arfer gorau.

### Mae ardaloedd cadwraeth yng nghanol y ddinas, pam nad oes angen caniatâd cynllunio arnoch?

- Mae gan y Cyngor hawliau datblygu a ganiateir, fodd bynnag, fel rhan o ddatblygiad y cynllun, rydym yn gweithredu arfer gorau ac yn cysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol (fel CADW ac adrannau Cynllunio a Pharciau'r cyngor).
- Bydd yr ymgysylltiad hwn yn sicrhau bod y dyluniad yn parchu ac yn gwella treftadaeth a chymeriad yr ardal ac yn cymryd camau i leihau unrhyw effaith bosibl y bydd y cynllun yn ei gael.

### Oni ddylai fod yn rhaid i chi gynnal asesiadau effaith amgylcheddol, treftadaeth a thrafnidiaeth?

- Gan nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, nid oes angen rhai asesiadau o dan y gyfraith.
- Fodd bynnag, rydym wedi cynnal proses sgrinio ecolegol, arolygon bywyd gwyllt, arolygon coed, Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (AED) a gwaith opsiynau helaeth i lywio'r cynnig dylunio.
- Mae'r cynllun yn rhan o'r modelu traffig ehangach a gynhaliwyd fel rhan o Goridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd.

### Beth am y strwythurau rhestredig?

- Mae'r nodweddion a'r strwythurau rhestredig wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith AED.
- Bydd y gwaith dylunio yn ategu'r nodweddion hyn a bydd yn llywio'r cam adeiladu i ddiogelu'r nodweddion.

### A fydd angen caniatâd cynllunio ar y cerfluniau?

- Bydd angen ystyriaeth gynllunio ar gyfer adleoli cerflun 2il Ardalydd Bute, er mwyn sicrhau bod yr adleoli'n cael ei wneud yn ofalus a bod y lleoliad newydd yn briodol. Nid yw hyn yn berthnasol i'r cerflun Nereid.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin





### Ydych chi'n tynnu coed?

- Ydyn, mae angen tynnu'r coed sydd ar lethr deheuol yr isffordd er enghraifft. Rydym yn disgwyl colli 10 o goed, fodd bynnag, rydym yn cynnig plannu 40 o goed, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 30 o goed.
- Rydym hefyd yn adleoli coeden ger cornel y grisiau gogleddol, i lenwi'r bwlch presennol yn y llinell goed ar hyd Boulevard De Nantes ar yr ochr ogleddol. Bydd technegau arbenigol yn cael eu defnyddio i wneud hyn.

## Teithio llesol a thrafnidiaeth:

### Sut bydd y newidiadau yn well i gerddwyr a beicwyr?

- Bydd y newidiadau'n creu amgylchedd mwy diogel, cynhwysol a hygyrch trwy flaenoriaethu llwybrau cerdded llydan, di-risiau, croesfannau clir, a phalmentydd botymog i'r rhai sydd ag amhariadau symudedd neu synhwyraidd.
- Bydd beicwyr yn elwa o lwybrau integredig wedi'u cysylltu'n dda a pharcio diogel, tra bod y dyluniad cyffredinol yn lleihau dominyddiaeth cerbydau, yn gwella goleuadau, ac yn cyflwyno mannau gwyrdd er cysur a diogelwch.
- Mae'r mesurau hyn yn sicrhau y gall pobl o bob oedran a gallu symud drwodd a mwynhau'r gofod gyda mwy o annibyniaeth a hyder.

### Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio?

- Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella beicffyrdd, safleoedd bws a llwybrau bws yn hanfodol i'r cynllun hwn.

### A all beicwyr ddefnyddio'r isffordd bresennol ac a all beicwyr ddefnyddio'r gofod newydd?

- Gallant, mae yna lwybr beicio sydd eisoes yn bodoli sy'n cysylltu o Heol y Gogledd i'r isffordd bresennol sy'n arwain at Heol y Brodyr Llwydion trwy le a rennir. Er y caniateir beicio yn y gofod newydd, disgwylir y bydd hyn ond i gael mynediad at y cyfleuster parcio beiciau yn Ffordd y Brenin neu ger y Brodordy.

### A allaf gyrraedd Heol y Brodyr Llwydion o Boulevard De Nantes a Ffordd y Brenin o hyd?

Na, dim ond beicwyr a cherddwyr fydd yn gallu cael mynediad i'r gofod arfaethedig yn Ffordd y Brenin o Boulevard De Nantes. Bydd newidiadau'n cael eu gwneud fel bod traffig cyffredinol yn dal i allu cael mynediad i Heol y Brodyr Llwydion, ond yn uniongyrchol oddi ar Heol y Gogledd.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ganiatáu i draffig droi i'r chwith o Heol y Gogledd i Ffordd y Brenin/Heol y Brodyr Llwydion. Bydd y cyfyngiadau troi i'r dde o Heol y Gogledd i Ffordd y Brenin/Heol y Brodyr Llwydion yn parhau.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Chwestiynau Cyffredin (Parhad)

### Beth am draffig a ddadleolir gan y gwaharddiad ar symudiadau troi neu gau ffyrdd?

- Fel rhan o Gam 1a Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd a Beicffordd 2, rydym wedi defnyddio meddalwedd modelu traffig a micro-efelychu i ddatblygu'r cynllun.
- Rydym wedi ystyried sawl opsiwn fel rhan o'r gwaith modelu, a'r cynllun terfynol sy'n cynnig y dull gweithredu a'r manteision mwyaf cytbwys i'r cynllun ehangach.

### Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith?

- Bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i Ganol y Ddinas a'r Ddinas gyfan yn y dyfodol, yn enwedig o ran hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy.
- Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysiau a Choridorau Clyfar i reoli llif traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i: [www.caerdydd.gov.uk](www.caerdydd.gov.uk) neu [Papur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)]()

## Rhoi adborth:

### Rydw i am wrthwynebu'r cynigion; sut alla i wneud hyn?

- Er ein bod yn gofyn am farn y cyhoedd a'n rhanddeiliaid, yn gyffredinol, nid oes angen i ni gynnal ymgynghoriad nac ymgysylltu ar lawer o'n cynigion yn ôl y gyfraith.
- Er nad diben yr ymarfer ymgysylltu hwn yw ceisio barn ar y cynllun ehangach, na gweithredu fel refferendwm, rydym am gael eich barn ar y cynigion i helpu i lywio a chyfoethogi'r dyluniad.

**Sut alla i roi adborth?** Ar y dudalen ganlynol, mae cyfarwyddiadau ar sut i ymateb.

### Pryd fyddaf yn cael ymateb i'm hadborth?

- Bydd pob darn o adborth yn cael ymateb ac yn cael ei gynnwys mewn Adroddiad Ymgysylltu, a fydd ar gael yn fuan ar ôl dyddiad cau'r Ymgysylltiad.
- Nid ydym yn gallu ymateb i ymholiadau unigol.

# Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin

## Pecyn Ymgysylltu - Sut i Ymateb

**Neu gallwch ymateb gan ddefnyddio'r Cod QR hwn**

**Ymatebwch i'r Ymgysylltiad hwn gan ddefnyddio ffurflen yr arolwg: YMA**
Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: **https://online1.snapsurveys.com/as1gp7**
Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r Ymgysylltiad hwn.

Fel arall, e-bostiwch **TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk**
neu ysgrifennwch at Dîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

**Bydd yr Ymgysylltiad hwn ar agor tan 05/07/2026**

**Sylwch mai dim ond adborth ar Welliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin rydym yn ei dderbyn.**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio i helpu i ysgrifennu'r Adroddiad Ymgysylltu - un o'r dogfennau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. O ganlyniad i adborth neu waith dylunio arall, gellir gwneud newidiadau i'r cynllun darluniadol a ddangosir.

Bydd copi o'r dyluniad manwl ar gael ar wefan y Cyngor pan fydd wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r deunydd ymgysylltu a'r adroddiad.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr Adroddiad Ymgysylltu a fydd yn cael ei roi ar-lein pan fydd ar gael yn **www.cardiff.gov.uk/projectautrafnidiaeth** gan ddefnyddio'r ddolen 'ymgynghoriadau cyfredol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Ymgysylltu, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.
**Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn (Gwelliannau Tir Cyhoeddus Ffordd y Brenin) a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk**

**Hefyd, ni fyddwn yn gallu ymateb i ymatebion unigol – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgysylltu a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r Ymgysylltiad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**